Children in Wales
Plant yng Nghymru

E-friffiad i aelodau 27 Medi 2019
Members' e-briefing 27 September 2019

This briefing is bilingual, click here for the English version.

Mae'r e-friffiad wythnosol hon yn cael ei baratoi'n arbennig ar eich cyfer chi fel rhan o'ch pecyn aelodaeth Plant yng Nghymru. Mae'n rhoi gwybodaeth i chi am y newyddion a'r polisïau diweddaraf sy'n effeithio ar blant a theuluoedd yng Nghymru, ac mae hefyd yn cynnwys manylion digwyddiadau a swyddi gwag a allai fod o ddiddordeb i chi.

I weld y rhestr lawn o fuddion aelodaeth sydd ar gael i chi, cliciwch yma. Os oes gennych sylwadau ar yr e-friffiad hon, cysylltwch â info@childreninwales.org.uk.

Swyddi Gwag

Dewch o hyd i'r swyddi gwag diweddaraf ar wefan Plant yng Nghymru. Peidiwch ag anghofio - gall aelodau hysbysebu am ddim.

- Mae Plant yng Nghymru yn dechrau cam dau o'r prosiect Pris Tlodi Disgyblion. Rydym yn recriwtio Swyddog Datblygu ar gyfer y prosiect, a fydd yn gweithio tuag at weithredu ein canllawiau Pris Tlodi Disgyblion mewn ysgolion.
- Mae NSPCC Cymru eisiau recriwtio Uwch Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus yng Nghymru. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymuno â Thîm Polisi a Materion Cyhoeddus Cymru, gan ddatblygu polisïau cyhoeddus yr NSPCC yng Nghymru ac ymgyrchu dros newid.

Hyfforddiant a digwyddiadau

08.10.2019	Diogelu Plant a Phobl Ifanc - Lefel 2	Conwy
10.10.2019	Deall Awtistiaeth a sut y gall effeithio ar y plentyn a'i ofalwyr	Y Rhyl

10.10.2019	Diogelu Plant Anabl	Caerdydd
18.10.2019	Tlodi Plant - deall yr achosion, yr ysgogwyr a'r effaith ar blant a phobl ifanc	Caerdydd
21.10.2019	Llinellau Siraol, Gorweddion Sirol: Camfanteisio Troseddol ar Balnt - Cyllyll, Gangiau a Cyffuriau ledled Cymru	Caerdydd
22.10.2019	Offer a Gyfer Newid - Hybu lleisiau pobl ifanc wrth asesu ac mewn ymyriadau	Y Rhyl

Gellir cael mynediad at amserlen yr hyfforddiant a'r digwyddiadau yn llawn o wefan Plant yng Nghymru.

Cliciwch yma am ragor o wybodaeth am ddigwyddiadau a hyfforddiant i'n haelodau.

Digwyddiadau i ddod: Ar Goll mewn Gofal, dathlu 30 mlynedd o CCUHP, darlith flynyddol hawliau plant ac Amnest Rhyngwladol yng Nghymru

- **19 Hydref - Cymru: gwlad fechan; amddiffynnwr hawliau dynol byd-eang.** Cynhadledd gyntaf Amnest Rhyngwladol y DU yng Nghymru, bydd y digwyddiad yn canolbwyntio ar weithredu, yn rhoi diweddariad ar faterion hawliau dynol ac yn rhoi llwybr clir i weithredu. Archebwch docynnau yma.
- **28 Hydref - Darlith flynyddol yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant.** Bydd y cyfreithiwr hawliau dynol o fri rhyngwladol, yr Athro Geraldine Van Bueren QC, yn siarad am 'Y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn - Cwrdd â'r Heriau Newydd.' Archebwch le yma.
- **20 Tachwedd - Dathlu 30 mlynedd o'r CCUHP yng Nghymru.** Mae Plant yng Nghymru yn cynnal digwyddiad i ddathlu 30 mlynedd ers sefydlu CCUHP, ar gyfer plant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol. Nid oes posib archebu lle eto, ond gallwch gofrestru eich diddordeb mewn cynnal gweithdy yma.
- **11 Rhagfyr - Ar Goll mewn Gofal Ugain mlynedd yn ddiweddarach.** Mae David Melding AC, Voices From Care Cymru a Phlant yng Nghymru wedi gweithio ar y cyd i drefnu digwyddiad a fydd yn edrych ar waddol Adroddiad Waterhouse, a gyhoeddwyd gyntaf bron i 20 mlynedd yn ôl. Rhagor o wybodaeth ar gael yma.

Profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc o Gymru sy'n cael Gorchmynion Llety Diogel

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad ar brofiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc o Gymru sydd wedi cael Gorchmynion Llety Diogel.

Comisiynwyd yr astudiaeth gan Gofal Cymdeithasol Cymru, a chafodd ei llunio gan Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) ym Mhrifysgol Caerdydd.

Dangosodd y canfyddiadau a amlygwyd o'r adroddiad fod 38% wedi cael profiadau cadarnhaol, 38% wedi cael profiadau negyddol a 25% yn gymysg. Dangosodd hefyd fod mwy na 50% o bobl ifanc wedi cael eu rhoi mewn llety diogel y tu allan i Gymru.

Roedd yr astudiaeth yn mynd ymlaen i wneud amrywiaeth o argymhellion, gan gynnwys "datblygu strategaeth genedlaethol i ddarparu'r gofal cywir i'r bobl ifanc hyn sydd ag anghenion cymhleth."

Bydd yr adroddiad a'i ganfyddiadau nawr yn cael eu cyflwyno i Grwp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru.

Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cyhoeddi ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018 - 2019.

Mae'n manylu ar y gwaith a wnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystod y flwyddyn, o nifer y gwasanaethau yr oeddent yn eu rheoleiddio, i nifer y lleoedd a ddarparwyd gan y gwasanaethau hynny a gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at waith ar y cyd ar arolygiadau a wnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru gydag Estyn, a'r graddfeydd cyhoeddedig y dechreuodd eu cynhyrchu wedi hynny.

Hefyd, gwnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru adolygiad thematig o wasanaethau plant awdurdodau lleol, gan ganolbwyntio ar blant sy'n cael eu derbyn i ofal.

I ddarllen yr adroddiad yn llawn, ewch i wefan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Cymru ein Dyfodol: Sgwrs Genedlaethol

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Dechreuodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru sgwrs genedlaethol ym mis Mai am ei gwaith yn rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith.

Bydd y sgwrs yn llywio Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020. Yn ddiweddar, cynhaliwyd pedwar gweithdy ym Mangor, Wrecsam, Caerfyrddin a Glynebwy. Rhannodd y bobl yn y gweithdai eu straeon a'u profiadau a dweud wrth y Comisiynydd pa fath o

Gymru yr hoffan nhw ei gweld yn y dyfodol.

Cynhelir y gweithdy olaf ar ddydd lau 3 Hydref 2019 yn Llandrindod.

Yn ogystal â'r digwyddiadau hyn, mae'r Comisiynydd eisiau annog pobl i gynnal eu digwyddiadau eu hunain ac mae hi wedi llunio pecyn cymorth i helpu.

Mae'r Comisiynydd hefyd yn casglu straeon, profiadau a safbwyntiau yn electronig yma ac yma.

Am ragor o wybodaeth neu i gymryd mwy o ran yn y prosiect, anfonwch e-bost i: clare.johnson@futuregenerations.wales

---

Ymgynghoriad: Amcanion cydraddoldeb strategol 2020 i 2024

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar ei Hamcanion Cydraddoldeb Strategol 2020-2024.

Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar y rhwystrau sy'n wynebu pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yng Nghymru, ac yn holi a yw'r amcanion arfaethedig yn mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny.

Dechreuodd Llywodraeth Cymru trwy drafod yr Amcanion Cydraddoldeb gyda rhanddeiliaid a sefydliadau cydraddoldeb ac ymgysylltwyd ag ystod eang o gyfranogwyr ar y materion yr oedd pobl â nodweddion gwarchodedig yn eu hwynebu yng Nghymru. Gwnaethant hefyd ymgorffori tystiolaeth o adroddiad *A yw Cymru'n Decach?* 2018 y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad trwy wefan Llywodraeth Cymru.

Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar: **19 Tachwedd 2019.**

Am y newyddion a'r polisi diweddaraf ewch i wefan Plant yng Nghymru.

Children in Wales
Plant yng Nghymru

This weekly e-briefing is prepared exclusively for you as part of your membership to Children in Wales. It provides you with information on the latest news and

policy impacting on children and families in Wales, and also includes details of events and vacancies which may be of interest to you.

To view the full list of membership benefits that you can access, please click here. If you have any comments about this e-briefing please contact info@childreninwales.org.uk.

Vacancies

Find the latest job vacancies on the Children in Wales website. Don't forget - members can advertise for free.

- Children in Wales is beginning phase two of the Price of Pupil Poverty project. We're recruiting a Development Officer for the project, who will work towards the implementation of our Price of Pupil Poverty guides in schools.
- NSPCC Cymru are recruiting for a Senior Policy & Public Affairs Officer in Wales. The successful candidate will join the Wales Policy and Public Affairs Team, developing the public policies of the NSPCC in Wales and campaigning for change.

Training and events

08.10.2019	Safeguarding Children and Young People - Level 2	Conwy
10.10.2019	Understanding Autism and how it can impact on the child and their carers	Rhyl
10.10.2019	Safeguarding Disabled Children	Cardiff
18.10.2019	Child Poverty - understanding thtte causes, drivers and impact on children and young people	Cardiff
21.10.2019	County Lines, County Lies: Child criminal exploitation - Knives, Gangs, and drugs across Wales	Cardiff
22.10.2019	Tools for change- promoting young people's voices in assessment and interventions	Rhyl

The full training and events schedule can be accessed from the Children in Wales website.

Click here for more information about our members' events and training.

Upcoming events: Lost in Care, celebrating 30 years of the UNCRC, children's rights annual lecture and Amnesty International in Wales

- **19October - Wales: Small nation, global human rights defender.** Amnesty International UK's first conference in Wales, the event will focus on action, updating attendees on human rights issues and giving them a clear path for action. Book tickets here.
- **28 October - Annual Observatory on the Human Rights of Children Lecture.**

Internationally renowned human rights lawyer, Professor Geraldine Van Bueren QC, will speak about 'The Convention on the Rights of the Child - Meeting the New Challenges.' Book here.

- **20 November - Celebrating 30 years of the UNCRC in Wales.** Children in Wales is hosting a celebration of the 30th anniversary of the UNCRC, for children, young people and professionals. Booking isn't open quite yet, but you can register your interest to host a workshop here.
- **11 December - Lost in Care: 20 Years On.** David Melding AM, Voices From Care Cymru and Children in Wales have worked in conjunction to produce this event examining the legacy of the Waterhouse Report, first published almost 20 years ago. More information available here.

Experiences and outcomes of children and young people from Wales receiving Secure Accommodation Orders

Social Care Wales has published a report into the experiences and outcomes of children and young people from Wales who received Secure Accommodation Orders.

The study was commissioned by Social Care Wales and performed by the Children's Social Care Research and Development Centre (CASCADE) at Cardiff University.

Highlighted findings from the report showed that 38% had positive experiences, 38% had negative experiences and 25% mixed. It also showed that more than 50% of young people were placed in secure accommodation outside Wales.

The study went on to make a variety of recommendations, including "developing a national strategy to provide the right care for these young people with complex needs."

The report and its findings will now be submitted to the Welsh Government's Ministerial Advisory Group.

Care Inspectorate Wales Annual Report

Care Inspectorate Wales has published its Annual Report for the financial years 2018 to 2019.

It details the work that Care Inspectorate Wales undertook for that year, from the number of services they regulated, to the number of places provided by those services and the implementation of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016.

The report also highlights joint work on inspections that Care Inspectorate Wales

undertook with Estyn, and the published ratings it subsequently began producing.

Care Inspectorate Wales also undertook a thematic review of local authority children's services, focusing on children coming into care.

To read the report in full, please visit the Care Inspectorate Wales' website.

Our Future Wales: A National Conversation

The Future Generations Commissioner for Wales began a national conversation in May about her work implementing the Well-being of Future Generations Act.

The conversation will inform the 2020 Future Generations Report, and recently concluded four workshops in Bangor, Wrexham, Carmarthen and Ebbw Vale. People attending the workshops shared their stories and experiences and told the Commissioner what kind of Wales they wanted in the future.

The final workshop will be held on Thursday 03 October 2019 in Llandrindod Wells.

As well as those events, the Commissioner wants to encourage people to hold their own events and have put together a toolkit to help.

The Commissioner is also collecting stories, experiences and views electronically here and here.

For more information or to get more involved in the project, please email clare.johnson@futuregenerations.wales

---

Consultation: Strategic equality objectives 2020 to 2024

The Welsh Government has published a consultation into its strategic quality objectives from 2020 to 2024.

The consultation seeks views on the barriers facing people with protected characteristics in Wales, and whether the proposed objectives address those barriers.

The Welsh Government began by discussing the Equality Objectives with stakeholders

and equality organisations and engaged with a wide range of participants on the issues that people with protected characteristics faced in Wales. They also incorporate evidence from *Is Wales Fairer? 2018* report from the Equality and Human Rights Commission.

You can respond to the consultation through the Welsh Government website.

The consultation closes on the **19 November 2019**.

For the latest news and policy please visit the Children in Wales.

STAY CONNECTED:

Dewiswch yr wybodaeth rydych yn dymuno ei derbyn

I newid eich dewisiadau ac i ddweud wrthym ni pa negeseuon e-bost rydych yn dymuno eu derbyn, cliciwch **'Diweddaru Proffil'** isod.

I atal pob e-bost oddi wrth Plant yng Nghymru, cliciwch '**Datdanysgrifio**'.

Byddwch yn Ymwybodol: Os **cliciwch Datdanysgrifio**, byddwch yn datdanysgrifio o holl wybodaeth a negeseuon e-bost marchnata Plant yng Nghymru.

Choose the information you want to receive

To change your preferences and tell us which emails you want to receive, click **'Update Profile'** below.

To stop all e-mails from Children in Wales, click '**Unsubscribe**'.

Please, Be Aware: If you **click unsubscribe**, you will be unsubscribing from all Children in Wales information and marketing emails.